# Ein 10 awgrym gwych i gael y gorau o'ch lleoliad profiad gwaith

1. Gwisgwch yn briodol bob amser, mae'n well bod wedi gor-wisgo ar eich diwrnod cyntaf ar leoliad, gwisgo'n smart fel y byddech chi ar gyfer cyfweliad swydd. Gallwch chi wisgo'n fwy hamddenol ar yr ail ddiwrnod.

2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio manylion y lleoliad a'r hyn sydd angen i chi fynd gyda chi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod i ble rydych chi'n mynd, pa adeilad neu ystafell a gwiriwch y manylion at bwy y mae angen i chi adrodd ar y diwrnod cyntaf. Gweithiwch allan hefyd cyn eich diwrnod cyntaf pa mor hir y bydd yn ei gymryd i chi gyrraedd. Cyrhaeddwch 10 munud cyn eich amser cychwyn.

3. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dweud wrth eich rheolwr neu'r person sy'n gyswllt i chi yn y gwaith beth rydych chi'n disgwyl ei gael o'r lleoliad a gadewch iddyn nhw wybod a oes unrhyw beth yr hoffech chi ei wneud neu ei ddysgu tra bod chi yno.

4. Cadwch ddyddiadur/log dyddiol o'r hyn a wnaethoch ac a welsoch. Gall hyn eich helpu i gofio beth wnaethoch chi a pha sgiliau y gwnaethoch chi eu defnyddio a'u datblygu. Bydd hyn yn ddefnyddiol iawn pan fyddwch chi'n ysgrifennu'ch datganiad personol neu'ch proffil personol ar gyfer eich  CV neu cais goleg.

5. Gwenwch a byddwch yn gyfeillgar a cheisiwch siarad ag ystod eang o staff o fewn y lleoliad. Byddwch yn dod i wybod am wahanol rolau a chyfleoedd o fewn y cwmni ac efallai darganfod gyrfa eich breuddwydion. Bydd siarad â phobl yn helpu i ehangu eich syniadau a'ch dealltwriaeth o fyd gwaith.

6. Gofynnwch gwestiynau a dangos brwdfrydedd. Gofynnwch i'r staff beth yw rhinweddau gweithiwr da yn eu barn nhw, gofynnwch iddynt am eu dyletswyddau a'u diwrnod nodweddiadol ac unrhyw wybodaeth ddefnyddiol am eu rôl.

7. Byddwch yn gwrtais a chyflwynwch eich hun gan na fydd staff yn gwybod pwy ydych chi. Cofiwch fod pobl yn barod i roi eu hamser i'ch helpu chi, dangoswch barch atynt a diolchwch iddynt am eu hamser! Dydych chi byth yn gwybod, gallent fod ar y panel cyfweld yn y dyfodol pan fyddwch yn ceisio am eich rôl berffaith.

8. Dangoswch rywfaint o fenter, byddwch yn rhagweithiol, cynigiwch helpu ar bob cyfle a chwiliwch am gyfleoedd i ddysgu ac i ddatblygu eich sgiliau.

9. Os ydych chi'n mwynhau'r gwaith, gofynnwch am brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi a allai fod ganddyn nhw pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol. Dydych chi byth yn gwybod, efallai mai chi yw'r union beth maen nhw'n chwilio amdano yn eu gweithlu yn y dyfodol! Chwiliwch am gyfleoedd, a gwnewch i bethau ddigwydd!

10. Mwynhewch eich hun a chael hwyl a chofiwch Byddwch y Gorau y Gallwch Fod!